Ennill a Cholli

(Bwrlwm, TASau, ACCAC, © Hawlfraint y Goron)

1 Darllenwch y rhan hon o'r pennill cyntaf eto. **Tanlinellwch** yr ymadrodd sy'n golygu cerdded i rywle lle nad oedd neb erioed wedi cerdded o'r blaen.

> Fel capten Kirk a chriw y *Starship Enterprise*
> Roedden nhw am fynd
> Lle doedd neb wedi troedio o'r blaen;
> Roedden nhw am ymladd â'r gwynt
> A gorchfygu'r anialdir oer;
> Roedden nhw am blannu baner eu gwlad
> Ar waelod y byd.

1 ◯ 1m

2 Tynnwch linell i gysylltu'r gair â'r disgrifiad cywir.
Mae un wedi ei wneud yn barod.

cychwyn	rhywbeth ofnadwy sy'n digwydd
angau	oer iawn iawn
trychineb	dechrau
rhewllyd	ardal heb ddim yn tyfu yno
anialdir	lladd/cael gwared o
difa	marwolaeth

2 ◯ 1m

3 Pam mae'r bardd yn defnyddio'r dyfyniad Saesneg?
"*to boldly go where no man has gone before*"?

Ticiwch 1.

Mae'r bardd eisiau dangos ei fod yn deall Saesneg.	☐
Mae'r bardd eisiau dangos ei fod yn hoff o Star Trek.	☐
Mae'r dyfyniad gwreiddiol o'r ffilm yn Saesneg.	☐

3 ◯ 1m

4 Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
Roedd hi'n wyntog iawn ar y ffordd i Begwn y De.		
Aeth pedwar dyn ar y daith.		
Aethant ar y daith ym mis Tachwedd.		
Digwyddodd y daith yn yr ugeinfed ganrif.		
Cyrhaeddodd y criw Begwn y De cyn neb arall.		
Mae pobl yn dal i gofio am Capten Scott a'i griw.		
Cafodd y dynion fu farw eu claddu gartref.		

4
2m

5 Beth yw effaith disgrifio'r dynion yn "ymladd â'r gwynt"?

Ticiwch 2

- Roedd y gwynt yn gryf. ☐
- Roedd y gwynt yn ysgafn. ☐
- Doedd y gwynt ddim yn broblem. ☐
- Roedd y gwynt yn eu herbyn. ☐
- Doedd hi ddim yn wyntog. ☐

5
1m

6 Darllenwch y pennill hwn eto.
Tanlinellwch 1 gair sy'n dweud bod y gwynt yn mynd i mewn i gyrff y dynion ac yn eu hoeri.

> Ac yn wyneb eu siom
> Bu rhaid brwydro adre
> Ar daith drist, ddidrugaredd
> Â'r gwynt di-baid yn treiddio
> I fêr eu hesgyrn.

6 ○ 1m

7 Mae'r bardd yn defnyddio'r disgrifiad "bedd gwyn" er mwyn...

Ticiwch 1

dweud fod y dynion wedi mynd ar goll yn yr eira	☐
dweud fod y dynion wedi gweld mynwent yn yr eira	☐
dweud fod y dynion wedi marw yn yr eira	☐
dweud fod y dynion wedi cysgu yn yr eira	☐

7 ○ 1m

8 Darllenwch y gerdd i gyd eto. Rhowch y digwyddiadau yn eu trefn gywir o 1 i 5.

Mae'r digwyddiad cyntaf wedi ei wneud yn barod.

Dechrau'r daith nôl.	☐
Dau o'r dynion yn marw yn yr oerfel.	☐
Y dynion yn gorfod tynnu'r slediau.	☐
Tri o'r dynion yn marw.	☐
Y tractorau a'r ceffylau ar stop.	1

8 ○ 1m

9 Edrychwch ar y pennill isod eto. Labelwch y technegau arddull sydd mewn print trwm gan ddewis o'r rhestr geiriau.

Mae 1 gair yn ormod yn y rhestr.

Ond o'r cychwyn

Camodd trychineb i'w cyfarfod

Fe fethodd y tractor**au**,

Fe fethodd y ceffyl**au**,

Dim ond dynion oedd

ar ôl i **dynnu'r** sledi**au**.

Ail adrodd **personoli** **ansoddair** **berfenw** **odl**

9

1m

Ennill a Cholli

Mae'r gerdd hon yn sôn am daith Capten Scott a'i griw i Begwn y De yn 1912: "to boldly go where no man has gone before"

Fel capten Kirk a chriw y Starship
Enterprise
Roedden nhw am fynd
Lle doedd neb wedi troedio o'r blaen;
Roedden nhw am ymladd â'r gwynt
A gorchfygu anialdir oer;
Roedden nhw am blannu baner eu gwlad
Ar waelod y byd.

Ond o'r cychwyn
Camodd trychineb i'w cyfarfod
Fe fethodd y tractorau,
Fe fethodd y ceffylau,
Ac yn y diwedd
Bu'n rhaid difa'r cŵn dewrion.
Dim ond dynion oedd ar ôl i dynnu'r
slediau.

Pump yn dathlu rhewllyd Nadolig
Ac Angau yn aros amdanynt,
yn westai heb wahoddiad.
Yna, ar ddiwedd y ras, colli -
Baner Norwy yn eu cyfarch ar y Pegwn;
Ac yn wyneb eu siom
Bu rhaid brwydro adre
Ar daith drist, ddidrugaredd
A'r gwynt di-baid yn treiddio
I fer eu hesgyrn.

Daeth Angau i gasglu Evans yn gyntaf;
Ac ar ôl mis o grynu,
Dechreuodd Oates ar ei daith olaf, unig
I gwrdd ag ef
Er mwyn achub ei gyfeillion.
Ond yn ofer.

Deg milltir ymlaen
Carcharwyd y lleill
Mewn bedd gwyn.

Ond er iddynt golli,
Ennill a wnaethant.
Buont farw yn bell oddi cartre,
Ond mae eu henwau yn dal i fyw
Ar wefusau'r rhai
Sydd yn edmygu dewrder.

Andrew Tweed